Urdd y Myfyrwyr
Prifysgol Aberystwyth University
Guild of Students

# Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs

**Dydd Mercher, 14eg Rhagfyr 2011**
**1.30pm – 3.30pm**
**Prif Ystafell, Urdd y Myfyrwyr**

# COFNODION

**Agenda**

1. Croeso
2. Ymddiheuriadau
3. Cyflwyniadau
4. Cofnodion Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs a gynhaliwyd 5ed Ebrill 2011
5. Materion sy'n Codi
    a. Polisi Cyflwyno'n Hwyr
    b. Cyfeiriadau Ebost Cynrychiolwyr
6. Adroddiadau
    a. Swyddog Addysg
    b. Llywydd
    c. Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr
    d. Cynrychiolwyr
7. Siarter y Myfyrwyr
8. E-Gyflwyno
9. Adborth
10. Cyflwyno'n Hwyr
11. Etholiadau Cynrychiolwyr Cyfadran
12. Unrhyw Faterion Eraill
13. Cyfarfod Nesaf

**Presennol:** Jessica Leigh (JL) (Cadeirydd); Ben Meakin (BM); Sam Reynolds (SR) (Cofnodion); Paul Arnold (PA); Trygve Børsting (TB); Adam Smith (AS); Becky Wale (BW); Adam Tucker (AT); Peter Gosiewski (PG); Nozuko Langa (NL); Kerry-Ann Pimlott (KP); Cassandra Baggs (CB); Rhiannon Morris (RM); Gemma Western (GW)

**Hefyd yn Bresennol:** Yr Athro John Grattan (JG), Deon y Gwyddorau a darpar Dirprwy Is-Ganghellor dros Ddysgu ac Addysgu.

**Ymddiheuriadau:** Anna Gabriella Sivertsen; Lucy Sharman-Davies; Sarah Hall; Winnie Karanja; Matthew Evans; Keith Winqvist; Hannah Jones; Will Pryce; Robyn Womack; Khaled Mabrouk.

**Absennol:** Chloe Reynolds; Joseph MacMahon; Peter Faraday Weller.

## 1. Croeso

Croesawodd JL bawb i Gyngor y Cynrychiolwyr Cwrs cynta'r flwyddyn, ac eglurodd yn fras sut mae'r Urdd yn ei weld yn gweithio.

## 2. Cyflwyniadau

Cyflwynodd yr aelodau eu hunain yn eu tro. Croesawodd y Cyngor bresenoldeb yr Athro Grattan hefyd.

## 3. Cofnodion Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs a gynhaliwyd 5ed Ebrill 2011

Cadarnhawyd y cofnodion heb ddim newid fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod blaenorol.

## 4. Materion sy'n Codi

### a. Polisi Cyflwyno'n Hwyr

Eglurodd JL y polisi presennol o ran cyflwyno gwaith yn hwyr a'r cynnig a gyflwynwyd i safoni'r system ar draws y tair cyfadran. Ar hyn o bryd, mae'r gosb am gyflwyno gwaith asesedig yn hwyr yn amrywio ar draws y Brifysgol o raddfa gyfnewidiol o gosbi i roi dim marc ar unwaith am gyflwyno'n hwyr. Y Swyddog Addysg blaenorol, Bethan Foweraker, a ddechreuodd yr ymgyrch i safoni'r polisi cyflwyno'n hwyr ar draws y sefydliad, a gobeithiai JL barhau i weithio tuag at un polisi. Ar hyn o bryd, y cynnig arfaethedig y mae'r Deoniaid wedi'i gymeradwyo yw barnu gwaith a gyflwynir yn hwyr yn 'aflwyddiannus'. Ond, mae goddefeb sy'n caniatáu i farcio gwaith o fewn 48 awr o'r dyddiad cau, ond yn amodol ar gap o 40%.

Eglurodd JG fod yna bolisi o roi dim marc ar waith a gyflwynir yn hwyr yn weithredol yng Nghyfadran y Gwyddorau. Tra mae Cyfadran y Celfyddydau a Chyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol yn cosbi ar raddfa gyfnewidiol. Eglurodd JG fod graddfa o'r fath yn anodd ei gweithredu ac yn agored i wallau.

Eglurodd JG fod y cynnig presennol yn gyfaddawd ac mae'n deall pryderon fod y polisi'n un llym, ond pwysleisiodd yr angen i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau o'r fath ar gyfer eu swyddi yn y dyfodol. Dywedodd JG hefyd y byddai trefn Amgylchiadau Arbennig gwell ar waith ar draws y Brifysgol er mwyn helpu myfyrwyr sydd â rheswm dilys dros gyflwyno'n hwyr.

Pwysleisiodd JL 'fyddai'r polisi ond yn berthnasol i nifer bach o fyfyrwyr; cyflwynir y mwyafrif helaeth o waith asesedig ar amser.

Gofynnodd nifer o'r cynrychiolwyr gwestiynau i JG er eglurhad a chawsant atebion a oedd yn cadarnhau agweddau ar y polisi arfaethedig.

Gofynnodd JL i'r cynrychiolwyr a yw'n well ganddynt gael un polisi i'r Brifysgol gyfan neu'r system bresennol. Roedd y cynrychiolwyr yn ymddangos eu bod yn cytuno bod polisi cyson yn y Sefydliad drwyddo draw yn decach, yn

arbennig i fyfyrwyr Anrhydedd Cyfun, a byddai'n golygu bod gwybodaeth ar gael yn ehangach gan leihau dryswch.

Gofynnodd JG i'r cynrychiolwyr a oeddynt yn cytuno â rhesymeg y polisi arfaethedig. Y farn gyffredinol oedd bod y syniad y tu ôl i'r polisi yn gall, ond bod y gosb yn ymddangos yn eithafol. Dywedodd TB y gall diffyg gwybodaeth arwain at rai myfyrwyr yn cyflwyno gwaith yn hwyr heb wybod eu bod am gael dim marc amdano. Pwysleisiodd JG yr angen i bob adran gynhyrchu calendr cyflwyno, gyda manylion dyddiadau cau, ar ddechrau pob semester, a dylent, ynghyd â'r cynrychiolwyr, sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael.

Cafwyd cwestiynau gan y cynrychiolwyr ynghylch union fanylion y polisi. Sicrhaodd JG a JL y cynrychiolwyr y byddai'r polisi yn ystyried unrhyw faterion a all godi ac anogon nhw i'r cynrychiolwyr gasglu adborth o'u hadrannau.

**b. Cyfeiriadau Ebost Cynrychiolwyr**

Gofynnodd SR i'r Cyngor a oedd creu cyfeiriad e-bost cyffredinol ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs pob adran yn syniad da, fel yr awgrymwyd yn y cofnodion blaenorol. Cytunodd y cynrychiolwyr a bydd SR yn edrych ar yr opsiynau gyda Gwasanaethau Gwybodaeth.

<u>Pwynt Gweithredu: SR am edrych ar y mater cyn y Cyngor nesaf.</u>

**5. Adroddiadau**

**a. Swyddog Addysg**

Cyfarchodd JL y Cyngor gan grynhoi ei gwaith ers dechrau yn y swydd. Yn ogystal â gweithio ar y Polisi Cyflwyno'n Hwyr y soniwyd amdano'n barod ac E-Gyflwyno, mae JL wrthi'n llunio adroddiad ar ansawdd yr adborth a roddir ar waith asesedig yn y Sefydliad drwyddo draw. Soniodd JL hefyd am ei gwaith gydag achosion myfyrwyr ac atgoffodd y cynrychiolwyr o'r angen i gyfeirio myfyrwyr ati hi pan fo hynny'n addas.

**b. Llywydd**

Crynhodd BM ei waith ers dechrau'r flwyddyn. Pwysleisiodd ei fod yn awyddus i symud yr Urdd tuag at strwythur mwy democrataidd a chynrychiadol a'i fod yn gweithio ar ffyrdd amrywiol o sicrhau hyn.

**c. Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr**

Rhoddodd SR grynodeb byr o'i waith ers iddo gael ei benodi i'r swydd ym mis Medi, gan gynnwys ethol a hyfforddi'r cynrychiolwyr ar y cyd â staff y Brifysgol. Mae ef hefyd wrthi'n gweithio ar sawl cynllun i wella system cynrychiolaeth myfyrwyr yn y Brifysgol drwyddi draw er mwyn sicrhau ei bod yn fwy effeithiol. Diolchodd SR i'r cynrychiolwyr am ddod i'r sesiynau hyfforddi diweddar.

**d. Cynrychiolwyr**

Gohiriodd JL adroddiadau cynrychiolwyr unigol oherwydd cyfyngiadau amser, ac yn lle hynny, anogodd i'r cynrychiolwyr godi unrhyw faterion penodol yn ystod y trafodaethau dilynol.

**6. Siarter y Myfyrwyr**

Eglurodd JL ei bod hi wrthi'n gweithio gyda'r Brifysgol i ailysgrifennu Siarter y Myfyrwyr, yn lle'r fersiwn ffederal Prifysgol Cymru cyfredol. Pwysleisiodd JL bwysigrwydd cyfraniad cynrychiolwyr wrth gynhyrchu dogfen fwy hygyrch a pherthnasol. Bydd y fersiwn cyfredol yn cael ei yrru at gynrychiolwyr yn y Flwyddyn Newydd, ynghyd ag eglurhad ar sut i gyfrannu.

<u>Pwynt Gweithredu: JL am yrru copi o'r Siarter i'r cynrychiolwyr, gan wahodd cynrychiolwyr i gyfrannu at y ddogfen newydd.</u>

**7. E-Gyflwyno**

Eglurodd JL mai rhan allweddol o'i rôl hi fel Swyddog Addysg oedd annog cyflwyno'n electroneg yn y Sefydliad drwyddo draw. Dywedodd JG fod cynnig system o'r fath yn y dyfodol agos yn bolisi gan y Brifysgol ar gyfer y rhan fwyaf o waith cwrs arferol a'r dull a ffafrir oedd trwy Blackboard.

Cododd y cynrychiolwyr broblemau gyda Blackboard, gan nodi anghysondeb o ran defnydd rhwng adrannau a newidiadau cyson i'r rhyngwyneb. Nodwyd y byddai cyflwyno electroneg yn canolbwyntio yn bennaf ar waith cwrs ysgrifenedig a byddai cyflwyno mathau eraill o waith cwrs (e.e. graffiau a wneir â llaw) yn parhau i gael eu hadolygu.

Codwyd y pwnc recordio darlithoedd, gan amlygu buddsoddiad sylweddol y Brifysgol yn y system Panopto. Cytunodd y cynrychiolwyr fod cyfleuster o'r fath yn boblogaidd iawn â myfyrwyr, ac roedd arnynt eisiau gweld mwy o ddefnydd o'r system. Cododd AT y pwynt fod Ysgol Rheolaeth a Busnes wedi gwrthod ystyried ei ddefnyddio ymhellach yn y FYSM diweddar oherwydd y perygl o leihad yn y nifer o fyfyrwyr mewn darlithoedd. Soniodd JG am ymchwil a oedd yn dangos bod yr hawl hwn yn anghywir. Gofynnodd JG i'r cynrychiolwyr godi enghreifftiau o arfer da gyda'r system, i weithredu fel adnodd defnyddiol ar gyfer datblygiad staff.

**8. Etholiadau Cynrychiolwyr Cyfadran**

Eglurodd SR y system bresennol o ran Cynrychiolwyr Cyfadran. Yn 2010/11 llwyddodd y Swyddog Addysg a'r Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr blaenorol i gael seddi i fyfyrwyr ar fyrddau'r tair Cyfadran ynghyd â Swyddogion yr Urdd. Ond, llwyddiant cyfyngedig a gafwyd wrth ddenu cynrychiolwyr i'r rôl, a doedd dim diffiniad clir o beth a ddisgwylid gan Gynrychiolydd Cyfadran. Eglurodd SR y byddai'n ymgynghori â Swyddogion yr Urdd a'r Cyfadrannau wrth benderfynu'r ffordd orau ymlaen a bydd gwybodaeth yn cael ei gyrru at gynrychiolwyr yn ddiweddarach gyda golwg ar gynnal etholiadau. Eglurodd JG beth a wna Cyfadran ac ailadroddodd bwysigrwydd Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs wrth ddeall pryderon myfyrwyr.

Pwynt Gweithredu: SR am weithio ar gynllun ar gyfer Cynrychiolaeth Cyfadran, a bydd yn cysylltu â'r cynrychiolwyr ynghylch hyn.

**9. Unrhyw Faterion Eraill**

a. Dywedodd PG fod ei gofnod presenoldeb yn dangos ei fod wedi methu sawl darlith er ei fod yn y sesiynau hyn, gofynnodd a oedd y cynrychiolwyr eraill wedi cael yr un broblem. Dywedodd JG wrth y Cyngor mai adnodd lles yw'r cofnod presenoldeb ac na ddylai myfyrwyr allu ei weld.

   Pwynt Gweithredu: SR am ofyn i dîm Cofnodion Myfyrwyr ddileu'r adnodd.

b. Cododd NL y broblem gyda dyddiadau cau'n gwrthdaro. Cytunwyd y byddai calendr cyflwyno, fel y trafodwyd dan 'Cyflwyno'n Hwyr', o gymorth mawr i fynd i'r afael â hyn.

**10. Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror. Bydd cynrychiolwyr yn cael gwybod y manylion trwy ebost mewn da bryd.

**Gorffennwyd y cyfarfod am 3.30pm**